# tafod elái

Nadolig 1994 | Pris 25c | Rhif 93

## GWYL DDRAMA YSGUBOL

Roedd Neuadd Dowlais yn llawn dop ar gyfer pedair noson Gŵyl Ddrama Tafod Elái ar ddiwedd mis Tachwedd. Eleni roedd deuddeg cwmni yn cymeryd rhan ac yn ôl y beirniad, Llion Williams, roedd yn wych gweld y cystadlu brwd a'r mwynhad roedd pawb yn ei gael wrth gymeryd rhan. Roedd y feirniadaeth ei hun yn gampwaith, rhoddwyd sylwadau treiddgar a gwerthfawrogol ar bob cynhyrchiad ac fe wrthododd y berniad gael ei ddylanwadu gan y cefnogaeth brwd roedd rhai o'r timau lleol yn cael! Enillwyd Tlws Actor yr Ŵyl gan Owen Williams, Ysgol Gyfun Rhydfelen ac aeth prif wobr yr Ŵyl i Bantomeim Ysgol Gyfun Llanhari.

Mae'n dyled yn fawr unwaith eto eleni i bawb a gymerodd ran ac a fu'n barod i roi o'u hamser prin i gyflwyno'r dramau yn broffesiynol a hwyliog. Diolch yn arbennig i Colin Williams am drefnu'r cyfan.



**Llion Williams, y beirniad, gyda Kath Williams a Simon Philpin, aelodau o griw Panto Ysgol Gyfun Llanhari, enillwyr Tlws Cwmni Gorau'r Wyl.**

## S4C

Ar nos Lun, 12 Rhagfyr gwahoddir trigolion yr ardal i gyfarfod cyhoeddus yng Nghanolfan Hanesyddol Pontypridd gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr y Sianel. Bydd cyfle i ddatgan barn ar y rhaglenni a helpu llywio dyfodol y sianel.



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA



### Tu Mewn

Cerdd Tafod
Llythyr o Frwsel
Panto y Miwni
Dramau'r Wyl
Nadolig y Plant
Newyddion Lleol

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams Pentyrch 890040

NEWYDDION LLEOL
Dilwen Davies 0443 223687
ERTHYGLAU
Emlyn Davies 0222 891344
LLUNIAU
D. J. Davies
Tonyrefail 671327
HYSBYSEBION
David Knight Pentyrch 891353
DOSBARTHU
John James 0443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd Radur 842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams Pentyrch 890979

PWYLLGOR
Rhys Llywelyn
Rhys Dafis
Anna Jones

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 1af o Chwefror
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
15 Ionawr 1995

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF4 8TG
Ffôn: 0222 890040

Cyhoeddir **Tafod Elái** gan
y Bwrdd Golygyddol
gyda chefnogaeth ariannol
Cyngor Celfyddydau Cymru
a'r Swyddfa Gymreig.
Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg



ARCHEBWCH
EICH COPI O
tafod elái

£2.50 AM Y FLWYDDYN


# CERDD tafod

**gyda Rhys Dafis**

Addas iawn i rifyn y Nadolig o Tafod Elái fyddai llond tudalen o englynion campus i'r achlysur, a'r rheiny gan enwogion y genedl. Dyma'n union sydd gennyf; englynion sy'n 'dweud y cyfan' mewn ychydig linellau, ac yn ein hatgoffa paham y dylem ddathlu'r Nadolig - diwrnod geni Iesu Grist. Diolch i'r beirdd am gael cynnwys eu perlau. Nadolig llawen i chi gyd!

Ymson Mair.
Heno datgelwyd i minnau - paham
Y mae pen y bryniau
Oll yn oll yn llawenhau, -
Mae'r achos yn fy mreichiau.
T. Arfon Williams

Gwyrth y Geni
Gwyry'n fam, y gair yn fud; - yr oesoedd
Ym mhreseb yr ennyd;
Daearol yw'r nef hefyd,
A'r lleiaf oll yw'r holl fyd.
Alan Llwyd

Nadolig
Nid oes faban sydd lanach - nac un Duw,
Gan nad oes prydferthach
Yn y byd na'r Oenig bach,
Na geni'r un mab gwynach.
Tudur Dylan Jones.

Nadolig
I'n byd ni y Mab di-nod - a aned;
Moli wnawn ei ddyfod;
I'r baban glân rhoddwn glod,-
Rhown ein harian i Herod.
John Glyn Jones

Mae'r wlad dan oleuadau - amryliw,
Mawr yw hwyl y chwarae;
O ganol ein teganau
Rhown iddo Ef air neu ddau.
John Glyn Jones.

Seren
Er gweld seren eleni - yn arwydd
Uwch sgwâr Piccadilly
Gofalwn na welwn ni
Y dyn a gwsg odani.
Gerallt Lloyd Owen

Nadolig
Dylem ar Ŵyl y Nadolig - gofio
Am gyfaill fo'n unig;
Rhannu gair a'n darn o gig
Ar stryd y rhai rhwystredig
Gwilym Roberts

Crist
Ein byd ni roes ond beudy - i eni'r
Mab unig, ac felly
O'n byd aeth, heb neb o'i du,
Eto'n dlotyn di-lety.
Ieuan Wyn


Os am
***DIWNIWR PIANO***

*Cysyllter â*
**Hefin Tomos**
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
***Ffôn: 0222 484816***

# YSGOL GYNRADD GYMRAEG CASTELLAU

**RYGBI**
Mae'r tîm rygbi wedi chwarae ac ennill nifer o gemau rygbi yn barod y tymor yma. Gobeithir ailadrodd llwyddiant y llynedd. Mr Silyn Roberts yw'r hyfforddwr eleni. Mae nifer o'r bechgyn yn chwarae i dîm Ysgolion Pontypridd a dewiswyd dau, sef Jonathan Edwards a Ioan Harries ar gyfer Cwrs Rygbi yng Nghanolfan Ogwr.

**PÊL-RWYD**
Mae'r tîm pêl-rwyd hefyd yn mynd o nerth i nerth gan chwarae ac ennill nifer o gemau yn erbyn ysgolion yr ardal. Diolch i Mrs Helen Nuttall am hyfforddi a chadw trefn ar y criw bywiog!

**CLWB DAWNS**
Bu ymateb brwd i fenter newydd yn yr ysgol, sef Clwb Dawns dan arweiniad Mrs Mari Brame. Braf iawn yw gweld plant Blwyddyn 5 a 6 (ac yn eu mysg, rhai o fechgyn y tîm rygbi) yn dawnsio yn osgeiddig a chreadigol.

**SIOE NADOLIG**
Nos Lun, Rhagfyr 12fed, yn Neuadd Gymuned Beddau, bydd holl blant yr ysgol o'r Feithrin i fyny at Flwyddyn 6 yn cymryd rhan yn ein sioe Nadolig - "NADOLIG I BAWB O BOBL Y BYD". Mrs Eirlys Eckley yw awdur y sioe ac mae'r athrawon a'r plant i gyd yn ymarfer yn galed ar gyfer perfformiadau bythgofiadwy!

**CYMDEITHAS RIENI AC ATHRAWON**
Bu'r Pwyllgor yn brysur yn trefnu Ffair Nadolig a Dawns Nadolig a llwyddwyd i godi swm sylweddol o arian tuag at yr ysgol unwaith eto.

**YMDDEOLIAD**
Dymunir yn dda i Mrs Mary Pryce fydd yn ymddeol o'i swydd fel athrawes ar ddiwedd y tymor. Cafodd Mrs Pryce y cyfle i ddysgu pob plentyn a fuodd yng Nghastellau erioed gan iddi ddysgu yn y Feithrin ers i'r ysgol agor. Diolchir iddi am ei brwdfrydedd a'i gofal arbennig dros y plant bach yn ystod yr wyth mlynedd ddiwethaf.

# TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Helen Jones

**PRIODAS**
Ar ddydd Sadwrn, Hydref 22ain priodwyd Meinir Beaufort Williams a Peter Darren Ebbsworth yng Nghapel Seiloh, Llanbedr Pont Steffan, Dyfed. Mae Meinir yn dysgu Cymraeg yn Llanhari a Peter yn dysgu Drama yn Ysgol Gyfun Gwynllyw. Pob dymuniad da iddynt am y dyfodol oddi wrth eu ffrindiau oll a chroeso mawr iawn iddynt i'n plith yn yr ardal hon.



**GENEDIGAETH**
Llongyfarchiadau i Clive a Janet Williams, Siop y Coed, Tonteg ar enedigaeth mab bychan, brawd i Lloyd a Brennig.

**LLANILLTUD FAERDREF**
Croeso i'r ardal i Mr Robert Jewel a symudodd i fyw yn Chandler's Reach yn ystod yr Haf. Mae Mr Jewel yn athro Cymraeg yn Ysgol Gyfun Glantaf yng Nghaerdydd.

**DYDDIADUR YSGOL FEITHRIN TONTEG**
Rhagfyr 9ed - Cyngerdd Nadolig y plant, bore coffi ac ymweliad gan Sion Corn.
Rhagfyr 14eg - Trip i weld Sion Corn ar dren Mynydd Bannau Brycheiniog. Bydd y bws yn gadael yr Hollybush am 9.15 a.m.

Rhagfyr 19 - Parti Nadolig y plant.
Bydd y tymor newydd yn dechrau ar y 5ed o Ionawr 1995.

# BRANWEN Y PANTO

Yn dilyn llwyddiant ysgubol Culhwch ac Olwen yn Theatr y Miwni ym Mhontypridd eleni bydd cyfle i weddill Cymru ei weld ar daith y gaeaf yma. I blant Taf Elái daw y cyfle i weld pantomeim newydd sbon gan yr un cwmni - BRANWEN gan Eiry Palfrey, Sue Roderick a Peter Williams a'r Cyfarwyddwr Dafydd Hywel.

Mae'r panto eleni eto wedi ei selio ar un o chwedlau enwocaf y Mabinogion - ond er fod diwedd trist i'r stori wreiddiol, mae'r panto'n diweddu'n hapus i bawb - ar wahan i'r dyn drwg wrth gwrs! Mae Branwen yn priodi y canwr pop enwog o Iwerddon - Mat O'Lwch, ond mae Efnysien ei hanner brawd cenfigenus yn fandaleiddio ei foto beic. I wneud yn iawn am hyn mae Bendibigboi y cawr - brawd Branwen yn rhoi anrheg o bair hudol i Mat. Pair sy'n rhoi dwy droed dde i unrhyw un sy'n rhoi ei draed ynddo! a phan fydd na gêm pêl droed tua diwedd y panto mae'n amlwg pwy sy'n mynd i ennill! Mae digon o ganu a dawnsio - a gwyliwch y Ddrudwy - wyddwch chi ddim ble fydd hi'n troi lan nesa!

Gyda cast yn cynnwys Dewi Pws fel Muriel y 'Dame' a Llion Williams (George yn C'mon Midffild) fel Efnysien dyma gyfle gwych i chi fwynhau noson hwyliog o hud, lledrith, cariad, cenfigen, pwer, rhamant, dawns a chân.

Mae tocynnau yn mynd yn gyflym iawn ar gyfer y Panto newydd.

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Loreen Williams

**GENEDIGAETH**
Llongyfarchiadau i Paul ac Elaine Noden, Nant Celyn ar enedigaeth eu merch fach, Lucy Angharad. Athrawes ffidil yn Ysgolion Gymraeg y cylch yw Elaine.

**CYDYMDEIMLO**
Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Joyce Burridge, Swyddfa'r Post a gollodd ei mam yn ddiweddar. Bu farw Mr David Burris, 26 Heol y Ffynnon yn ystod y mis ac estynnwn ein cydymdeimlad i'w weddw a'r merched Pat a Kay.

**GWELLHAD BUAN**
Da yw clywed fod Mrs Valmai Arnold, Heol y Ffynnon yn gwella ar ôl bod yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty ddechrau mis Tachwedd.

Cafodd Mr John Llywelyn Thomas, Nant Celyn anffawd fach yn ddiweddar hefyd pan dorrodd ei fraich. Dymunwn yn dda i'r ddau.

**CÔR MERCHED Y GARTH**
Teithiodd Côr Merched y Garth i Langefni i'r Ŵyl Gerdd Dant ar y 12ed o Dachwedd, ac er na chafwyd y llwyddiant arferol cafodd yr aelodau benwythnos "rhyfeddol" yn aros yng Ngwesty Carreg Bran yn Llanfairpwll.

Ar nos Iau, Tachwedd 17ed cafwyd noson i ddathlu ac i werthfawrogi gwaith Menna, arweinyddes y Cor yng Ngwesty'r Commercial yng Nghilfynydd.

Bydd y cor yn canu carolau a gosodiadau Cerdd Dant i greu awyrgylch Nadoligaidd yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd ar Nos Iau 15ed a Nos Wener 16ed o Ragfyr.

**MEDDYGINIAETH I'R ENWOG TOM JONES**
Rwyn deall fod gan Tom Jones amryw o "ffans" yn y cylch (yn enwedig yn Llantrisant) sy'n bwriadu mynd i'w weld yng Nghaerdydd cyn hir. Fe allech chi fod wedi cael cip bach ar eich eilun yn yr Efail Isaf un noson ddechrau Tachwedd. Tra'n ymweld a ffrindiau y Mhenywaun roedd yr enwog Tom yn cwyno o lwnc tost ac fe aeth i ofyn cyngor arbenigwraig sy'n byw lleol gan fod ganddo gyngerdd y noson ganlynol.

## Y TABERNACL

**BEDYDD**
Yn y Gwasanaeth Cymun ddechrau Tachwedd bedyddiwyd Aled, mab bach Gareth a Rhiannon Humphreys, Y Padog, Pentre'r Eglwys.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn fel aelodau yn ddwys â theulu y diweddar Yvonne Williams, Despenser Avenue, Llantrisant. Fe ddioddefodd Yvonne gystudd hir a bu'n ddewr a siriol hyd y diwedd.

**CENHADU**
Dymunwn yn dda i Llio Penri, un o aelodau Teidiau Twm sydd wedi penderfynu treulio blwyddyn yn un o wledydd Affrica cyn mynd i ddilyn cwrs coleg.

Pob hwyl i Elenid Jones hefyd sydd allan yn Nicaragua ar hyn o bryd yn gweithio ar ran Cymorth Cristnogol.

**CRIW LLONG YR ANASTASIS**
Ar nos Sul, Hydref 23ain daeth aelodau staff llong yr Anastasis i'r capel i roi darlun inni o'u gwaith ar fwrdd y llong mewn gwledydd difreintiedig y byd.

Wrth deithio o borthladd i borthladd maent yn gyfrifol am filoedd o lawdriniaethau meddygol mewn tair theatr a chlinigau ar fwrdd y llong. Cawsom noson yn llawn hwyl ac asbri a'r bobl ifanc yma'n byrlymu o frwdfrydedd wrth roi inni gyflwyniadau dramatig a cherddorol.

Bu grwp o actorin o Soweto yn aros yn y pentref yn ddiweddar hefyd a gwahoddwyd hwy i roi cyflwyniad yn y Festri ar nos Lun, Hydref 31ain. Yn ol pob hanes cafwyd noson ddiddorol iawn.

**TEIDIAU TWM AR Y TELEDU**
Ar ddydd Sul Tachwedd 20fed bu cwmni Teledu Elidyr yn ffilmio aelodau o Deidiau Twm yn ymateb i ffilm gan Judith Humphreys o Gymorth Cristnogol a ffilmiwyd ar ei hymweliad â'r India.

**DISTAWRWYDD?**
Bydd y Parchedig Eirian Rees yn gorfod cymryd seibiant o'i waith ar ddechrau'r flwyddyn newydd oherwydd fod ganddo broblem â'i lais, gan dreulio cyfnod heb siarad o gwbl. Dymunwn adferiad buan iddo . . . hynny yw os lwyddith e gadw'n ddistaw!

**DATHLIADAU'R NADOLIG**
**Dydd Sadwrn, Rhagfyr 3ydd.**
Taith Ddirgel Teidiau Twm. (Cysylltwch â Lowri Devonald, Menter Taf Elai os ydych am ymuno â'r Daith).

**Nos Sul, Rhagfyr 11ed.**
Canu o Gylch y Pentre!
Gwahoddir yr aelodau, hen ac ifanc i ganu carolau o amgylch pentref Efail Isaf. Ymgynull am 6 o'r gloch.

**Nos Iau, Rhagfyr 15ed.**
Parti Teulu Twm
Gwasanaeth Carolau Ysgol Maes y Bryn i ddechrau am 7 o'r gloch.

**Dydd Sadwrn, Rhagfyr 17ed.**
Taith Ddirgel Teulu Twm

**Dydd Sul, Rhagfyr 18ed.**
Gwsanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul ac aelodau Teulu Twm am 10.45 a.m. Bydd parti plant yr Ysgol Sul yn dilyn y Gwasanaeth.
Gwasanaeth Nadolig yr Adran Saesneg am 2 o'r gloch yn cael ei ddilyn gan y parti.

**Rhagfyr 22, 23 a 24**
Bydd Teidiau Twm yn trefnu Taith Gerdded Noddedig o Fethlehem i'r Efail Isaf gan gyrraedd yn ôl ar gyfer y Gwasanaeth Noswyl y Nadolig. Cesglir arian ar gyfer Cymorth Cristnogol.

**Rhagfyr 24.**
Gwasanaeth Noswyl y Nadolig
Oedfa fawr o ddathlu i'r gymuned gyfan i ddechrau am 11 o'r gloch y nos.

Bydd cyfle i aelodau a phlant brynu anrhegion i alluogi gwragedd mewn Llochesi i Ferched eu rhoi i'w plant yn anrhegion adeg y Nadolig. Bydd Bethan Samuel yn casglu'r anrhegion ddechrau Rhagfyr er mwyn eu cyflwyno i'r llochesi mewn da bryd.

# MENTER Taf Elái

**Tŷ Model, Llantrisant**
**0443 226386**

## Y FFORWM

Gwahoddwyd pob Cymdeithas a Sefydliad Cymraeg yn Nhaf Elái i Fforwn o 10 - 1pm yn Ysgol Garth Olwg ar ddydd Sadwrn, 21 Ionawr. Bydd Cadeirydd y Fenter, Danny Grehan, yn amlinellu nod a bwriad Menter Taf Elái. Bydd cyfraniadau gan gynrychiolwyr i benderfynu ar nod a chyfeiriad y Fforwm a'r Fenter i hybu defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal.

## SEMINAR IEUENCTID

Ar ddydd Sadwrn, 28 Ionawr, bydd seminar i weithwyr a chefnogwyr y Fenter gyda Ian Batten, yr Urdd, Eleri Jenkins, swyddog ieuenctid y Sir a Lowri Devonald swyddog ieuenctid y Fenter. Byddant yn sôn am y gwahanol weithgareddau sydd yn cael eu trefnu a sôn am lwyddiant ieithyddol y mentrau hyn a sut y gallwn drwy gael hwyl a phleser gadarnhau y defnydd o'r Gymraeg.

## CANGHENNAU O'R FENTER

Os oes unrhyw â diddordeb cynorthwyo'r Fenter sefydlu canghennau newydd ym Mhontypridd a Thonyrefail cysylltwch â Swyddfa'r Fenter. Pwrpas y canghennau newydd fydd datblygu gweithgareddau'r Fenter a chodi arian. Bydd cyfarfod ym Mhontypridd cyn y Nadolig.

## WYTHNOS ROC

Dros hanner tymor mis Chwefror cynhelir seminar roc yn yr ardal. Bydd wythnos gyfan o weithdai roc a gobeithir y bydd grwpiau lleol yn dysgu o brofiad cerddorion profiadol o bob cwr o Gymru fydd yn dod i roi'r gweithdai. Cynhelir y seminar o dan nawdd Cyngor Roc a Gwerin Cymru a cheir mwy o fanylion o Swyddfa'r Fenter.

## CYSTADLEUAETH SNWCER

Ar nos Iau 14 Rhagfyr bydd Pencampwriaeth Snwcer yng Nghlwb Snooker World. Mae croeso i unrhyw un rhwng 12 - 18 oed gystadlu a bydd gwobrau ariannol i'r enillwyr. Mae croeso i gefnogwyr ymuno i weld y cystadlu brwd.

## Y BÂS DATA

Mae 2200 o enwau ar Fâs-Data y Fenter erbyn hyn. A bydd pob un yn derbyn y rhifyn nesaf o gylchlythyr y Fenter yn y flwyddyn newydd. Os nad ydych yn derbyn y cylchlythyr cysylltwch â swyddfa'r Fenter.

## PWYLLGOR GWAITH

Croeso i nifer o bobl newydd sydd yn ymuno â Phwyllgor Gwaith y Fenter - Gill Rees, Geraint Wilson-Price, Eric Evans a Howard Morse.

## DISGWYL AM GEFNOGAETH

Mae Cyngor Sir Morgannwg Ganol am ail-ystyried cais am gefnogaeth i glwb Snwcer y Fenter. Trafodwyd y cais yn gynharach eleni gyda rhai cynghorwyr o'r farn fod arlliw gwleiddyddol i'r Clwb! Mae dyletswydd ar y Sir i gefnogi gweithgareddau ieuenctid drwy'r Gymraeg ac i sicrhau cyfleusterau ar gyfer y tô ifanc.

## SIOP W.H.SMITHS

Yn dilyn cais gan Fenter Taf Elái mae siop W.H. Smith's Pontypridd wedi cynyddu ei stoc o lyfrau Cymraeg.

### Y NADOLIG

Ar Nos Lun, 5ed Rhagfyr bydd Pwyllgor y Dysgwyr yn cynnal Sesiwn Garolau am 7 o'r gloch yn Siop Tesco Glanbâd.

Ar ddydd Mawrth, 28 Rhagfyr bydd Parti Nadolig y Cynlluniau Chwarae am 4 - 6 o'r gloch yn Neuadd Dowlais.

Bydd Swyddfa'r Fenter ar gau o'r 21 Rhagfyr i'r 3ydd Ionawr.

### Y FLWYDDYN NEWYDD

Oherwydd llwyddiant y gwersi bydd y Pêl Droed yn ail gychwyn ar ddwy noson yn y flwyddyn newydd. O dan 11 oed ar Nos Fercher, 11 Ionawr ac o dan 8 oed ar Nos Iau, 12 Ionawr yng Nghanolfan Ilan o 5 - 6 o'r gloch gyda'r hyfforddwr, Kevin Hughes.

Bydd Cwmni Drama dan 11 oed yn ail-gychwyn ar ddydd Sadwrn, 7 Ionawr gyda Anwen Carlisle a'r Cwmni dros 11 oed yn cwrdd ar nos Lun, 9 Ionawr gyda Danny Grehan.


**SIOP BARA Y PENTREF**

*Heol St Illtyd, Pentre'r Eglwys*

**Bara a chacennau wedi eu pobi yn y siop mewn ffwrn draddodiadol.**

Mrs Janet Evans

0443 202013

**Trefnir Arlwyo**

# CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Sheila Dafis

### TÂN GWYLLT
Cafwyd noson tân gwyllt ardderchog ar gae'r ysgol nos Sadwrn, Tachwedd 5ed. Roedd cannoedd o bobol a phlant wedi ymgynnull ar noo, a mwynhau sgwrs a chawl ason fwyn i wylio'r goelcerth yn tani chig mewn rholyn. Yna cawsant eu swyno gan y rocedi serog, y ffrwydriadau amryliw, a'r ffrwtiadau tân wrth i griw dyfal Cyfeillion yr Ysgol gerdded o ffiws i ffiws a gyrru'r cyfan i'r entrychion. Roedd 'na ôl meddwl a chynllunio manwl, a'r cyfan wedi ei drefnu'n ddiogel a phroffesiynol. Roedd y gymeradwyaeth ar derfyn yr arddangosfa yn gwbwl haeddiannol.

### YSGOL Y CREIGIAU
Yn ystod mis Tachwedd cynhaliwyd disgo i'r plant, a ffair Nadolig lwyddiannus unwaith eto yng ngofal Cyfeillion yr Ysgol. A bydd disgo arall i'r plant ar Rhagfyr 9ed, ac yna cyfle i'r rhieni a'u ffrindiau siglo a bopio ar Rhagfyr 17eg. Mae hon yn noson boblogaidd iawn fel arfer, felly sicrhewch eich tocyn yn fuan oddi wrth Gill Evans (891950).

### CAROLAU A CHASGIAU
Bob nos Wener ers tro, bu llond yr ysgol o sŵn offerynnau'n cael eu chwythu, eu taro a'u llinynnu. Mae nifer o blant yn cael gwersi cerddoriaeth - yn wir mae deunydd cerddorfa yn y Creigiau erbyn hyn! Dydd Gwener, Rhagfyr 16 bydd cyfle ichi wrando ar y plant yn perfformio am 6.30 yr hwyr. Mynediad trwy docyn.

### CYNGERDD YM MRYSTE
Cafodd Anna Mc Donald gyfle yn ddiweddar i fynd gyda'i hathrawes, Eirian Dyfri i ganu'r delyn i Gymdeithas Gymraeg Bryste.

### CANTORION CREIGIAU
Mae'r Côr yn brysur iawn y mis hwn. Cyngerdd yng Ngerddi'r Dyffryn ar Rhagfyr 9ed, a chanu mewn cyngerdd Nadoligaidd i'r Henoed yn Llanilltud Faerdref ar Rhagfyr 10ed. Canu o gwmpas y Creigiau wedyn ar Rhagfyr 18fed, a'u noson draddodiadol o garolau i godi arian at achos da yn yr ardal - Ysgol Craig y Parc.

### BABI ARALL!
Llongyfarchiadau i Sharon a Nigel Griffiths, Parc y Coed ar ddyfodiad Mathew i lenwi'r tŷ a llonni'r stryd. Mae Nigel eisoes yn dysgu tactegau rygbi iddo fo, gan barhau'r gred y dylid cychwyn hyfforddi chwaraewyr o'r crud. Yn ôl Sharon, mae Nigel wrth ei fodd yn taclo'r 'cewin brwnt', ac yn cario'r bwced dŵr! Dymuniadau gorau'r pentre i chi eich tri.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y Creigiau.

# YSGOL GARTH OLWG

### CODI ARIAN AT GARTREFI DR BARNARDO
Fel rhan o weithgareddau'r Cynhaeaf, casglodd plant Garth Olwg £410 tuag at Cartrefi Dr Barnardo - trwy "werthu" ffrwythau a llysiau i'w rhieni ac i ffrindiau. Casglwyd yr arian o'r ysgol gan Mrs Jill Harvey - trefnydd lleol yr ymgyrch i godi arian dros Gartrefi Barnardo.

### PASIANT Y PEIRIANNAU
Bwriada nifer fawr o aelodau Cangen yr Urdd fynd i weld Pasiant y Peiriannau yn Neuadd Ysgol Iau, Castell Cyfarthfa, Merthyr ar Dachwedd 29.

### PÊL RWYD
Mae'r tîm pêl rhwyd wedi chwarae nifer o gemau, a'r safon yn gwella fesul gêm. Mae'r arwyddion yn galonogol ar gyfer gweddill y flwyddyn.

### GALA NOFIO YR URDD
Llongyfarchiadau i'r unigolion a fu'n cynrychioli'r ysgol yng ngala nofio'r Urdd ym Mhwll Ynysawdre yn ddiweddar - gyda llongyfarchiadu ŷarbennig i'r unigolion a gyrhaeddodd y rasus terfynol.

### PLANT MEWN ANGEN
Fe fydd nifer o weithgareddau yn digwydd er mwyn codi arian tuag at gronfa Plant Mewn Angen - yn cynnwys cyngerdd gan Blant Blwyddyn 5 i'r rhieni yn neuadd yr ysgol ar Nos Lun, Tachwedd 21ain.

### CROESAWU
Estynnir croeso cynnes i Mrs Sian Lewis sydd wedi ymuno â'r staff yng Ngarth Olwg ers hanner tymor. Yn ogystal â bod yn un o famau'r ysgol ers mis Medi, mae Mrs Lewis yn gyn-athrawes o Ysgol Evan James, Pontypridd.

### D Y D D I A D A U GWEITHGAREDDAU'R NADOLIG
Rhagfyr 10 - Ffair Nadolig yn Neuadd yr Ysgol.
Rhagfyr 13 - Plant Blwyddyn 4 yn mynychu parti Nadolig yng Nghartre'r Henoed yng Ngarth Olwg. (Yn nes i'r Nadolig, fe fydd ymweliadau hefyd i Gartref Penrhos ac Ysbyty Tonteg - ar batrwm ymweliadau cymdeithasol adeg y Cynhaeaf).
Rhagfyr 15 - Dyddiad Gwasanaeth Nadolig yr ysgol yng Nghapel Salem, Tonteg.
Rhagfyr 16 - Dyddiad Cinio Nadolig yr ysgol.
Rhagfyr 19 - Dyddiad Parti Nadolig adran Babanod yr ysgol (plant Meithrin/Derbyn a Chyfnod Allweddol 1).
Rhagfyr 20 - Dyddiad Disco Nadolig yr Adran Iau (plant Cyfnod Allweddol 2).
Rhagfyr 21 - Ymweliad gan Rosfa a Plumbo.


**SWYDDFA'R POST TONTEG**

Perchnogion: Bill a Thelma Cook



**Dewis Helaeth o Gardiau Cymraeg at bob achlysur**
(Penblwydd, Priodas, Gwellhad, a.y.b.)

***GALWCH HEIBIO I'N GWELD***

# LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Glenys Roberts

**YVONNE**
Daeth llu o gyfeillion ynghyd i dalu'r gymwynas olaf i Yvonne Williams, 30 Despenser Avenue, Llantrisant yn y Tabernacl, Efail Isaf ddydd Gwener y 18fed o Dachwedd. Er mor drist oedd yr achlysur llwyddodd teyrnged y Parchedig Eirian Rees i ddod â chymeriad llawen, cyfeillgar a gofalus Yvonne yn fyw i ni. Ar ei chais hi y chwaraewyd cân Wet Wet Wet, 'Love is All Around' ar ddechrau'r gwasanaeth. Bu gofal Tony, Rebekah, Lowri a Dafydd yn dyner drosti ac estynnwn ein cydymdeimlad diffuant iddynt ac i'w mam.

**HALEN YN Y GWAED**
Llongyfarchiadau i Esyllt Swain ar ei pherfformiad yn 'Halen yn y Gwaed' nos Sadwrn, 19 Tachwedd.

**CYMDEITHAS GYMRAEG LLANTRISANT**
Cafwyd sgwrs ddifyr dros ben gan y Dr Dafydd Huws ar 'Agweddau Ysgafn ar Seiciatraeth' nos Fercher y 16eg o Dachwedd yn y Brunel. Mae'n rhaid ei fod yn gwella cannoedd trwy wneud iddynt chwerthin! Ond roedd digon i gnoi cil arno hefyd.

Cofiwch am y **Gwasanaeth Plygain** ym Mhont-y-clun noswyl y Nadolig am 11.30. Gwasanaeth byr fydd hwn a chyfle i ddymuno Nadolig Llawen i'n gilydd ar fore'r Ŵyl. Does dim rhaid i chi fod yn aelod o'r Gymdeithas i ymuno â ni.

**DYN LWCUS**
Ydych chi'n adnabod rhywun enillodd ar y Loteri? Un dyn lwcus oedd Neil Evans, Chartists' Road. Ond mae'n dal i aros i ennill y jacpot!

☆☆☆☆☆☆☆
☆☆☆☆

# YSGOL GYNRADD GYMRAEG LLANTRISANT

**GWASANAETH CAROLAU**
Cynhelir dau wasanaeth carolau eleni ar 16 Rhagfyr yn Eglwys Llantrisant, y naill yn y bore a'r llall yn y pnawn. Adran y babanod fydd yn cymryd at y rhan fwyaf o'r gwaith gan fod yr Adran Iau yn brysur gyda'r sioe gerdd, a bydd nifer o eitemau offerynnol gan gynnwys datganiadau ar gitâr, chwythbrennau, telyn ac offerynnau pres.

**SIOE GERDD**
Ar y 9fed a'r 10fed o Ragfyr y cyflwynir y Sioe Gerdd yn Llanhari, ar thema'r goedwig werdd a chadwraeth, sef thema'r ysgol am y tymor. Bydd yr Adran Iau i gyd yn cymryd rhan yn y sioe. Hefin Griffiths yw'r cynhyrchydd a chyfansoddwyd y gerddoriaeth gan Eirwyn Jôs. Cafwyd y set trwy garedigrwydd Geraint Davies a'r rhieni fu'n gyfrifol am y gwisgoedd. Erbyn diwedd y tymor bydd fideo a lluniau o'r sioe ar werth yn yr ysgol.

**FIDEO NADOLIG**
Eleni, defnyddir fideo a gynhyrchwyd gan Gyngor Bwrdeistref Taf-Elái i gyd-fynd â thema cadwraeth. Mae'r fideo yn rhan o ymgyrch y Cyngor dros gadw'r ardal yn glir o sbwriel.

**DATHLU'R NADOLIG**
Bydd plant yr ysgol yn mynd i ganu carolau i'r henoed yn Llantrisant fel arfer, a bydd Sioe Hud a Lledrith Mici Plwm a Rosfa yn ymweld â ninnau i ddiddanu'r plant.

**PLANT MEWN ANGEN**
Dydd Gwener, 25 Tachwedd daeth y plant a'r athrawon i'r ysgol wedi gwisgo'u dillad tu chwithig allan, gan dalu 50c am y fraint o wneud hynny!

**DOSBARTH 6**
Bu'r Parchedig T. J. Davies ar ymweliad â'r ysgol yn ystod mis Tachwedd yn sôn am hanes yr Esgob William Morgan a chyfieithu'r Beibl. Roedd yr ymweliad yn cyd-daro â gwaith y plant ar oes y Tuduriaid.

**PANTO'R MUNI**
Bydd yr ysgol yn ymweld â'r Pantomeim yn y Muni, Pontypridd ym mis Ionawr. Cynhaliwyd raffl eisoes a chodi £800 tuag at gost yr ymweliad.

**PÊL-DROED**
Bu tîm pêl-droed 5 bob ochr yr ysgol yn chwarae yn Llanhari ganol Tachwedd ac yn cystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd.

**THEMA NEWYDD**
Pan ddown yn ôl ym mis Ionawr bydd gennym thema newydd am y tymor, sef 'Teithio'.

Nadolig Llawen i'r plant a'r athrawon!

# BLWYDDYN O DDATHLU

Mae Côr Godre'r Garth ar fin cwblhau cyfnod prysur yn dathlu ei ugeinfed pen-blwydd. Yn dilyn y daith i Catalonia ym mis Ebrill cafwyd cyngerdd a chinio'r dathlu ym mis Mai. Daeth Côr o Lithuania i aros am ddeuddydd ym mis Gorffennaf. Yn dilyn yr Eisteddfod cymerwyd rhan yng Nghyngerdd Coffa Rhian Heulyn yn Ystrad Mynach ym mis Medi. Ar ddechrau mis Tachwedd bu'r côr yn diddori cynhadledd yng Ngwesty'r International yng Nghaerdydd ac ar ddydd Sadwrn olaf y mis perfformiwyd y Meseia yn Eglwys Sant Elfan, Aberdâr.

Daeth cynulleidfa gref i glywed y Meseia yn cael ei ganu yn Gymraeg o bosib am y tro cyntaf yng Nghwm Cynon a dangoswyd gwerthfawrogiad o waith yr unawdwyr, yr organydd a'r côr. I gloi'r flwyddyn bydd y côr yn canu yn Eglwys Dewi Sant Caerdydd ar nos Sul, 11 Rhagfyr ac yna yn Canu Carolau a hel arian at achos da lleol ar Stryd Taf, Pontypridd ar y dydd Sadwrn cyn y Nadolig.

Mae'r côr yn gwahodd aelodau newydd i ymuno yn yr ymarferion fydd yn ail-gychwyn am 7.30 yr hwyr ar Nos Sul, 8ed Ionawr yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf.

# BEIRNIADAETH LLION WILLIAMS

Diolch am y croeso i'r Ŵyl. Mae yma naws arbennig cartrefol braf ac ro'n ni'n teimlo drwy'r wythnos y gallwn i'n hawdd iawn fod ym mhendraw Llŷn neu berfeddion Sir Fôn - mor draddodiadol Gymreig ydi'r awyrgylch yma. A does neb wedi cyfrannu mwy i'r awyrgylch na'r plant sydd wedi bod yn eistedd yn y blaen drwy'r wythnos yn codi calon dyn ar gyfer dyfodol y Gymraeg yn yr ardal hon. Wedi cael lot o hwyl o fod yng nghanol pobol sydd yn actio a chynhyrchu dramau am y mwynhad heb gymryd eu hunain gormod o ddifrif. Mae dyfodol drama ar y lefel yma cyn bwysiced â'r lefel broffesiynol ac rwy'n sicr y gwelwn ni wynebau nifer o'r gwynebau ifanc ar y llwyfannau mawr cenedlaethol ac ar ein sgrin deledu yn y dyfodol agos iawn.

Mae'n dasg anodd beirniadu oherwydd yr amrywiaeth. Mae ambell i gategori gwahanol i wneud y gwaith yn haws - faswn i'n falch gweld deuddeg categori i gael plesio pawb. Trawiadol iawn oedd y gwahanol arddull rhwng y cwmniau oedolion a'r cwmniau ysgol y naill yn glynu at hen ddulliau a'r llall yn herio'r drefn, gwthio'r ffiniau ac yn arbrofi ar yr holl dehongliad o beth ydi drama.




**Y Beirniad yn rhan o Noson Lawen y Dwrlyn**

**NOS FAWRTH**
**CWMNI DWRLYN E.R.**
**Gwirion Hen gan William Owen**

Drama wladaidd am hanes priodas dau yn Hydref eu dyddiau. Gosodwyd naws yr ŵyl yn syth gyda'r gefnogaeth fawr o'r llawr wrth i'r cwmni yma ymddangos. Doeddwn i ddim yn cymeryd dim sylw o'r 'Clapometer' a'r gefnogaeth leol partisan. Set naturiolaidd dda a newidiwyd y set yn eitha slic o un olygfa i'r llall.

Ann Davies ac Eleri Jones yn agor y ddrama - yn siwr iawn o'u sgript ac yn glir iawn eu llefaru. Fe gafwyd cyfeiriadau lleol yn syth at ryw Sheila Dafis sy'n trin gwalltiau rwla ffordd hyn a dyma'r math o beth a welwyd dro ar ôl tro yn ystod yr wythnos - rhan amla yn llwyddiannus a bob tro yn boblogaidd gyda'r gynulleidfa blwyfol yma.

Roedd y cwmni ar frys i nodi yn y rhaglen fod yna waith heneiddio garw arnyn nhw yn y ddrama yma. Roedd yna ôl gwaith coluro da ond dydi heneiddio ar lwyfan ddim yn beth hawdd - mae ystymiau corfforol o gymorth a pitch y llais. Roedd Colin Williams fel Gruffudd yn llwyddiannus iawn - yn symud ei bwysau yn simsan o un droed i'r llall ac yn llwyddo i argyhoeddi fwy wrth wneud llai. Roedd Ann Davies fel Sera yn cymeriadu yn dda - Gruffudd wedi setlo yn dda i mewn i'r briodas a Sera wedyn yn gwbwl groes ac mewn panic llwyr. Gafon ni wedyn y striptease mwya poblogaidd yn Nhaf Elái ers blynyddoedd gan y ddau.

Cwmni ifanc felly yn actio criw hen - dim o'i le ar hyn - mae'n gyfle i'r cast gael ychydig o hwyl. Ond mae'n braf fel cynulleidfa cael ymgolli yn naturioldeb y cymeriadau ac anghofio bod rhywun yn gwylio drama.

**NOSON LAWEN Y DWRLYN**
**RHODRI'R CÊS Y SWYNGYFAREDDWR**

Dim manylion o flaen llaw am y cwmni yma - rhyw gyfrinach mawr am y cynhyrchiad - rhyw dderyn bach yn deud wrthai bod a wnelo hynny â'r ffaith bod nhw heb gyfarfod tan nos Sul. Rhywbeth bizarre iawn oedd yr holl beth - Monty Python yn cyrraedd Taf Elái. Roedd yna ryw deimlad o greu adloniant anarchaidd yn y fan a'r lle. Fe rwygwyd y llen dramatig rhwng y llwyfan a'r gynulleidfa ac fe dorrwyd pob rheol - yn enwedig y rheol amatur gydag ymddangosiad Wynfford Elis Owen.

Roedd yna ddigon o lais a charisma gan Syspendar y Swyn Gyffareddwr ond yn anffodus fe ostyngodd ei lais ac fe adawodd ei garisma fo wrth i'r sioe fynd yn ei flaen. Fe welwyd Tony ac Aloma a'r boi yn ddigon tebyg i'r fersiwn gwreiddiol.

Wedyn fe gafon ni ddawnsio Groegaidd a greodd awyrgylch wych yn y neuadd ac fe allwn i daeru fod Groegwr iawn rywle yn eu canol. Fe gafon sgets wedyn a'r pennaeth, Kamakaze yn wych iawn - yn dipyn o seren yn ymateb yn y fan a'r lle i heclo'r gynulleidfa. Nid hawdd oedd cynnal yr acen ond fe lwyddon nhw yn rhyfeddol er bod hi'n biti na chlywsom ni ddim gan y ddau ymgeisydd arall.

Roedd y côr yn araf yn cydio, ond fe gynhesodd petha wrth iddyn nhw ganu clodydd Penri'r Papur Bro. Syniad da medda fi ar y pryd oedd ei dynnu i'r llwyfan - tan i mi weld pwy oedd yn mynd i chael hi nesa! Wedyn weles i faint o staff S4C oedd ar y llwyfan na - pobol cwbwl wallgo - faswn i'n ofidus iawn petawn i'n Huw Jones.

Gwreiddiol a chwbwl wallgo - llongyfarchiadau.

**YSGOL GYFUN LLANHARI**
**'CNAWD' gan Louise Page**

Roedd newid naws yn anodd ar ôl gwallgofrwydd y Noson Lawen ond fe lwyddwyd drwy gerddoriaeth hudolus a'r agoriad byr gyda'r goleuadau llaw. Roedd y set yn syml ac effeithiol a'r golygfeydd yn fyr ac i'r pwynt. Roedd teimlad clinigol y set gwyn yn dyblu yn dda fel lle i newid y tu ôl iddo. Y ddwy actores yn cymeriadu'r plant yn grefftus - yn dangos yn dda y duedd sydd yma i ddynwared oedolion mewn plant a'r cynnwrf a'r diniweidrwydd wrth weld eu bronnau yn tyfu ac yna'r torri yn ôl i'r presennol a'r ferch fach bellach yn ddynes yn yr ysbyty yn colli ei bron.



**Ifan Gruffydd gyda cast 'Cnawd' - Rwth Elis Owen a Sara Davies**

Dewis da o ddrama i ddwy ferch - efallai ryw nodyn bach y dylid gwylio rhag ofn bod y darnau llefaru i'r gynulleidfa yn mynd fymryn yn adroddllyd eu naws.

**NOS FERCHER**
**YSGOL GYFUN CWM RHYMNI**
**DAN Y WENALLT cyfieithiad o waith Dylan Thomas**

Detholiad o'r gwaith a gafwyd gan lwyfan llawn o actorion. Roedd y set yn syml a dyna fel y dylai fod gan mai drama i leisiau ydi hon, ond defnyddiwyd lefelau y set yn effeithiol. Y plant eu hunain gyfarwyddodd hon mae'n debyg a dyma i chi grefft - roedden nhw'n creu delweddau'n dda, yn symund yn slic ac mewn modd syml o un olygfa i'r llall. Roedd y llefarydd yn hynod naturiol er fod angen taflu llais ychydig mwy, yn enwedig felly mewn neuadd fel hyn; ac o bosib fod yn fwy ymwybodol o rythm barddoniaeth y darn.

Roedd hwn yn waith anodd i actorion ifanc ond fe welwyd cymeriadu da yn arbennig felly gan y merched fel cymdogion a roedd monolog Lil Bwt yn dda gan Heather Saunders. Mae cameo bach fel hyn cyn bwysiced a rhan ganolog i'r cyfanwaith ac fe welwyd yma waith ensemble arbennig gan y cwmni i gyd. Gwelwyd rap hyd yn oed yn y canol a cameos bach da gan Sioni a'i fêts. Roedd yna ddigon o newid arddull drwy gydol y gwaith a chân syml di-gyfeiliant yn effeithiol yng nghanol y bwrlwm. Roedd y gerddoriaeth ar dâp hefyd yn hudolus effeithiol ond tybed a oes yna offerynwyr yn eu plith allai fod wedi creu cerddoriaeth fyw - dwi'n siwr bod. Llongyfarchiadau am gynhyrchiad hynod raenus.

**CWMNI**
**YSGOL GYFUN GLANTAF**
**NI'N DWY gan Nan Lewis**

Llefaru da - sicr o'u sgript unwaith eto y basics ym myd y ddrama yn cael eu cyflwyno mor dda gan y cwmniau ieuenctid ac yn wir yr oedolion. Rhyw dueddiad i sbio tua'r llawr weithiau gan Mari - ffocws yn bwysig drwy'r amser. Hoel gwaith mawr ar y cynyhyrchiad - y perthynas rhwng y fam a'r ferch - mae posibiliadau mawr i'r sgript yma. Anelu at symylrwydd eto o ran set a chelfi. Gymaint o sgôp yn y ddrama hon - y ddwy ochr i gymeriad y fam - Bethan Davies y weithwraig gymdeithasol yn graff drwy'r amser yn sylwi ar yr awyrgylch yn y tŷ. Mae'n bosib i Hannah, fel y fam, gwthio ei pherfformiad yn bellach, holl ochrau personoliaeth y fam yma. Mae Hannah yn gallu bod yn gryf iawn ar ei gorau fel yn y ffrae efo'r swyddog lles, mae'r cymeriad yma yn byw ar ymyl y dibyn. Drama dda wedi ei pherfformio gan ddisgyblion disgybledig iawn.

**CWMNI YSGOL GYFUN Y CYMER**
**GODSPELL**

Addasiad o sioe gyflawn yr ysgol yn cael ei berfformio gan naw o actorion. Ychydig yn araf yn cynhesu ond roeddwn i wedi mwynhau yn ofnadwy. Cerddoriaeth fyw a set syml dim ond lefelau, gwaith goleuo yn syml a da, roedd delweddau da yn arbennig dawns y breichiau. Roedd y caneuon yn anodd i leisiau mor ifanc ond gawson ni ganeuon wirioneddol dda wrth i'r cynhyrchiad fynd yn ei flaen. "Paratowch ffordd yr Ior" a "Duw gyda'r bobol" yn dda. Roedd y ffocws ar y gynulleidfa yn dda a'r cameo o'r gweinidog a'i gynulleidfa yn wych. Y perfformiad yn cynhesu wrth fynd yn ei flaen a chael ymateb y gynulleidfa, roedd hi'n mynd yn gyflym iawn. Y cyfeiriadau lleol i'r Beddau a chyfeiriadau i'r noson yn ran o steil Godspell. Roedd y delweddau cwffio a'r Kung Fu yn glyfar iawn. Wedyn yn sydyn newid yr holl naws a mynd a'r gynulleidfa hefo nhw i'r gan "Dydd wrth ddydd". Hoffais y defnydd o lais gan un cymeriad a meim gan gymeriad arall ochr arall i'r llwyfan, roeddent yn defnyddio hyn er mwyn digrifwch yn aml iawn. Troi o'r difri i'r digri yn effeithiol. Hyd yn oed yr hadau yn cael eu protready yn Nameg yr Heuwr.

Dim ffiniau o gwbwl yn y ddrama - bechgyn yn portreadu merched a merched yn ddynion. Dod allan i'r gynulleidfa wedyn - gwnaeth un ferch eistedd ar fwrdd y beirniad - di'r bwrdd na fina wedi bod r'un fath ers hynny! 'Yn Dy Law' yn gân wirioneddol ysbrydoledig. Unigolion hynod dalentog ond y teimlad o ensemble oedd yn holl-bwysig a'r cysylltiad llygad rhwng yr actorion yn gryf drwy'r amser. Fasa hi'n braf gweld y ddrama hon yn mynd ar daith genedlaethol - roedd hi mor dda.

**YSGOL FEISTRI LLANHARI**
**Y PRACTIS**

Roedd yna 'Build Up' mawr i'r ddrama hon a dyma nhw'n dod i mewn fel mellt a tharanau. Defnyddio'r neuadd i gyd, yn dechrau o'r cefn a'r actorion yn cael cheers fesul un wrth ymddangos. Cymeriadu da a lleisiau clir yn sicr o'u deialog. Oedd rhaid i mi anwybyddu 'clapometer' y gynulleidfa gyda'r gefnogaeth leol. Roedden nhw braidd yn 'dop caets' drwy'r amser, dim rest i gael, roedd o fel 'Fawlty Towers' ond weithiau mae'n rhaid dod lawr i gael rhyw anadl. Roedd Mr Tomos, y cynhyrchydd, yn ganolog a chry a braidd yn manic. Actio cefndir da - Catrin Gaerwen fel Megan yn 'byw'r perfformiad'. Mr Tomos yn dda wrth iddo ddechrau troi'n ddagreuol. Dwi wedi gweld cyfarwyddwyr mwy gwallgo ar S4C. A gawson ni terrier bach yn dod i mewn a hwnnw wedi ymlacio'n llwyr yn bwyta popeth oedd o'n gweld ar y llawr, roeddwn bron a roi Actor yr Ŵyl i'r terrier.



**NOS IAU**
**CWMNI**
**YSGOL GYFUN RHYDFELEN**
**FFERM YR ANIFEILIAD**

Cerddoriaeth fyw yn creu'r naws, set syml a gwaith ensemble da gan y criw ifanc. Y llefaru'n dda, yn enwedig Mr Major yn cyfeirio ei anerchiad i'r gynulleidfa. Roedd y ffarmwr yn dda a'r olygfa o Major yn marw ac yn cerdded drwy'r gynulleidfa yn effeithiol. Roedd y llefarydd wedi ymlacio ac yn naturiol braf. Y gwisgoedd yn syml ond effeithiol, y cathod a'r ieir a'r ceiliog yn arbennig yn creu cymeriadaeth ddifyr a'r moch ifanc yn dda gyda digon o hyder. Roedd y llefarydd yn cario llyfr fel prop i gyfleu'r syniad mai stori sydd yma ond yn osgoi darllen ac yn gwybod ei linellau yn berffaith. Roedd angen mwy o naws cynnwrf a llawenydd y chwyldro ymysg yr anifeiliaid. Stori anodd i'w gyfleu - yn ymddangos yn syml ar un lefel ond yn llawn negeseuon gwleidyddol fel yn holl with Orwell. Llwyddwyd i gyfleu'r stori gymhleth mewn modd syml ac effeithiol gan barchu holl naws alegoriol y gwaith gwreiddiol.



**'Fferm yr Anifeiliaid' - Ysgol Gyfun Rhydfelen**

**CWMNI'R DWRLYN MR**
**HELYN Y BUARTH gan Gwion a Meinir Lynch.**

Set naturiolaidd - ôl gwaith sicrhau manylion fel y llenni wedi rhwygo a'r lluniau yn gam yn creu naws y t_. Roeddwn yn licio'r hen gath ar y bwrdd a honno'n cael ei thaflu drwy'r drws. Emlyn Davies a Nia Williams yn cymeriadu'n dda - da iawn oedd ei dric hefo'r dannedd gosod. Sefyllfa'r press-ups a'r braces yn malu yn ddigri iawn. Blew neu locsyn oedd ar chest Bob y ffarmwr? Ond roedd yr enllibio personol yn erbyn fi ar y ffôn gan Bob ddim yn plesio a mynd ymlaen wedyn i enllibio pob cwmni arall - camddefnydd o lwyfan gyhoeddus! Twm y gwas yn ei het a'i sbectol wallgo. Pawb yn sicr o'u sgript yn Ty'n Twll y cartref traddodiadol hwn. Roedd cleimacs y dadwisgo yn dda iawn gyda Bob yn troi'n medallion man.

**CYMDEITHAS GYMRAEG LLANTRISANT**
**'Gwell Hwyr na Hwyrach'**

Roedden nhw am upstagio o'r dechra hefo'r wellinton yn dod i lawr y simna tra roedd Colin yn cyflwyno. Edna a Mari yn agor y ddrama yn hwyliog a'u diffiniad arbennig o 'arolwg' - smell, a'r chwarae ar eiriau yn parhau drwy'r ddrama - y chilli beans ar support the Tories (suppositories). Roedd hen waed Llangeitho yn llifo drwy'r cymeriadau hyn yn chwarae'r hiwmor oddi ar ei gilydd a'r traffarth codi breichiau yn dda. Y ddau gyfaill yn y siop ddillad yn dda er fod y set braidd yn ddryslyd - elfennau'r t_ yn rhy gry yn y siop! Mr Mordecai yn llwyddo i greu cymeriad heb ddweud dim gyda'i gerddediad a'i symudiadau ac roedd stumiau gwyneb i'r dim heb fod yn ormodol gan Elin Morse. Cerddoriaeth difyr ac addas rhwng y golygfeydd ond aeth pethau braidd yn bizarre wrth i Mr Mordecai ddangos ei dalentau ar y piano. Seibio gwych gan Edna a Mr Mordecai cyn y cynnwrf, a'r slow-motion yn gweithio'n wych.

**CWMNI YSGOL GYFUN RHYDFELEN**
**'YSCOL' addasiad o ddrama John Godber "Teechers".**

Dechrau da gyda digon o hyder a chysylltiad llygaid yn syth â'r gynulleidfa. Mwynhad pur ym mherfformiad y criw a'u cynnwrf a'u brwdfrydedd yn trosglwyddo'n syth i'r gynulleidfa. Y pianydd wedyn yn codi'n gwbwl annisgwyl ac yn ymuno â'r cast. Defnydd da o brop syml - y shawl a'r sbectol a'r mwstash. Y llefaru'n glir ac yn taflu'r hiwmor yn dda o un i'r llall. Y perfformiadau yn hollol ymlacedig a phawb yn sydyn ar eu ciws ac yn symud yn slic o un olygfa i'r llall. Direidi anhygoel yng ngwyneb y boi bach, Owen Williams, stand-up comic y dyfodol gyda amseru anhygoel. Pob aelod o'r cast wrthi drwy'r amser yn cyfrannu yn y cefndir at lwyddiant yr olygfa fel hefo'r Haleliwia chorus. Monolog Ogin gan Stuart Corbett yn cael ei gyflwyno'n wych. Er bod yna ddigon o pathos ar y diwedd roedd yna rhybweth yn wan yn y diweddglo. Perfformiad wirioneddol dda a phroffesiynol.



**Cwmni Cymdeithas Gymraeg Llantrisant**



# Y DYFARNIAD

**CWMNI CHWECHED DOSBARTH LLANHARI 'HICORI DICORI DOC'**

Panto gwreiddiol wedi ei ysgrifennu gan y criw brwdfrydig. Y gwisgoedd yn lliwgar a'r set yn syml ac yn effeithiol a'r caneuon yn dda. Mrs Caredig, Kath Williams, yn garismatig o'r cychwyn cyntaf ac yn ennyn brwdfrydedd y gynulleidfa. Carwyn a'i griw drwg yn uchel eu cloch a hynod o ddrwg a Tracey y Darten yn ennill cydymdeimlad hefo'i llais canu hoffus? Gwaith da gan y corws yn y cefndir. Yr ymdaith i'r gâd drwy'r gynulleidfa yn dda. Y cwbl yn cael ei gyfleu yn dwt ar y diwedd a'r gân gloi yn dda.

**TLWS Y PANTO**
Chweched Dosbarth Llanhari.

**TLWS Y NOSON LAWEN**
Am eu gwallgofrwydd a'u anarchiaeth llwyr -
Cwmni'r Dwrlyn

**TLWS COFFA IFAN WYN I'R CWMNI OEDOLION GORAU**
Fasai'r clapometer wedi rhoi'r wobr i athrawon Llanhari - ond dydi o ddim yn gweithio. Cwmniau'r Dwrlyn yn dda. Ond gyda perffomiadau da iawn a sgript arbennig mae'r tlws yn mynd i
Cwmni Drama Llantrisant

**TLWS YR ACTOR/ACTORES GORAU**
Mae'r canlynol yn haeddu clod uchel - Kath Williams fel Mrs Caredig, a Rebecca Adamson fel Dicori yn Hicori Dicori Doc. Elin Morse fel Edna yn nrama Llantrisant. Catrin Gaerwen a'r cynhyrchydd Mr Tomos yn nrama ysgol feistri Llanhari. Edward Thomas, Sian Phillips a Sarah Jane Wakely yn Dan y Wenallt. Ruth Elis Owen yn Cnawd. Lisa Davies a Hannah Evans yn Ni'n Dwy. Roedd yn anodd iawn penderfynu ond yn arbennig am ei ddireidi a'i amseru ac am berfformiadau cast cyfan Ysgol Gyfun Rhydfelen yn 'Yscol' mae'r Tlws yn mynd i
Owen Williams.



'Yscol' Cwmni Ysgol Gyfun Rhydfelen
gyda Owen Williams, Actor yr Ŵyl ar y chwith

**TLWS DRAMA YSGOLION**
Cystadleuaeth anodd iawn i'w beirniadu pob un yn haeddu clod. Ond am eu perfformiad gwych mae'r wobr yn mynd i
Godspell, Ysgol Gyfun y Cymer.

**TLWS YR ŴYL**
Mae na gymaint sydd heb cael gwobr yn haeddu gwobr. Rwyf wedi cael fy nhynnu gan berfformiadau Rhydfelen a'r Cymmer ac i Lantrisant. Ond oherwydd ysbryd y cynhyrchiad, y sgript gwreiddiol a'r holl waith paratoi ar y gwisgoedd lliwgar mae Tlws Cwpan yr Ŵyl yn mynd i
Panto Ysgol Gyfun Llanhari.

**Diolch i gefnogwyr yr Wyl - yr Arlwywyr, Neuadd Dowlais, y Noddwyr, y Beirniad, y cwmniau drama, y cynulleidfaoedd a'r trefnydd - Colin Williams.**
**Lluniau: D.J. Davies**

# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

**YSGOL GYMRAEG TONYREFAIL**
Mae Irwin Wilcox athro yn yr ysgol yn ymadael ar ddiwedd y tymor, ac yn ymgymryd â swydd yn ysgol Gynradd Gymraeg Ystrad Mynach. Dymuniadau gorau iddo yn ei swydd newydd, colled mawr i Donyrefail. Mae'n frodor o Dreorci, cyn-ddisgybl Ysgol Gymraeg Ynyswen ac Ysgol Gyfun Rhydfelen.
Disgwylir athrawes newydd ddechrau'r tymor nesaf sef Miss Delyth Sian Roberts o Lwynypia. Mae'n dysgu yn Llanfair ym Muallt ar hyn o bryd.

**GALA NOFIO**
Mewn Gala Nofio rhyng-ysgolion bu wyth o blant yn gyntaf sef Craig Pope, Llinos Owen, Nathan Rosser, Sali Edmunds, Gareth Pugh, Michael Bromfield, Jemma Jonathan. Yr eilyddion oedd Nicki Hall, Gareth Thomas a Kimberley Waters. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

**CYLCH MEITHRIN THOMASTOWN**
Ar Sadwrn 19eg Tachwedd cynhaliwyd Marathon Dartio i godi elw tuag at y Meithrin. Roedd y marathon yn parhau o naw y bore hyd naw y nos a chodwyd tua can punt. Bydd y Ffair Nadolig yn cael ei chynnal ar Sadwrn 26ain Tachwedd a bydd ymweliad gan Sion Corn.

**PRIODAS**
Ar ddydd Sadwrn, 19eg o Dachwedd gweinyddwyd priodas yng Nghapel y Ton rhwng un o ferched yr ardal, sef Miss Angela Thorn, Maesybryn, Tonyrefail a Mr W.J. Ryan o dde Llundain. Gwasanaethwyd gan y Parch Hywel E Lewis, Sardis, Pontypridd. Addysgwyd Angela yn Ysgol Gynradd Tonyrefail ag Ysgol Gyfun Tonyrefail ac mae'n gweithio yn Llundain. Byddant yn ymgartrefu yn Walthamstow.

**CAPEL Y TON**
Mae Mrs Mary Church yn dal i wella ar ol ei damwain ond nid yw yn ddigon da i ddod i'r capel eto. Mae ei chwaer Mrs Peggy Harries o Pembroke Street, hithau hefyd ddim



yn dda, ag mae wedi mynd at ei merch sydd yn byw yn Swydd Gaerhirfryn. Mae dwy o'n haelodau wedi mynd i Bortiwgal ar wyliau sef Miss Vilda Morgan a Miss Jean Thomas ynghyd â Sefydliad y Merched yn y Ton. Mae'n siwr y byddant wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

**POBOL Y CWM**
Mae'n hyfryd i'r rhai ohonom sydd yn gwylio Pobol y Cwm weld un o'n trigolion yn actio arno sef Danny Grehan gŵr Helen Prosser a thad Fflur Elin. Rhwydd hynt iddo.

**YMGYRCH YMCHWIL CANCR**
Mae pwyllgor Tonyrefail o'r ymchwil wedi casglu dros £200 mewn noson goffi yn y Neuadd Gymunedol. Mae holl llafur a gwaith Miss Marian Llewelyn a Miss Betty Prosser wedi dod i'r amlwg unwaith eto. Yn yr adloniant ar y noson cymerwyd rhan gan ysgol ddawnsio Gilfach Goch o dan arweiniad medrus Mrs Brenda Gammon o Dylcha Wen, Tonyrefail a'r plant a'r merched hyn ar eu gorau. Mae Brenda yn byw drws nesa ond un i ni, a chofiaf am adeg ryw ugain mlynedd yn ôl pan roedd ganddi ysgol yn Ton a bu fy merch fy hunan yn rhan ohoni. Mae'n hyfryd gweld Brenda wedi ail-gydio yn y dawnsio ar ôl ysbaid o fagu plant.

**LLADRON YN TYLCHA WEN**
Gwnaeth dau ddyn ddwyn arian o dŷ Mrs Sal Evans Tylcha Wen rai wythnosau'n ôl, ryw saith cant o bunnoedd. Roeddent wedi hysbysu eu hunain fel dynion Bwrdd Dŵr a thra bod un yn ymgomio â Mrs Evans am y tapiau roedd y llall yn chwilota a chael hyd i'r arian. Mae Mrs Evans newydd gael ei phenblwydd yn 94 ag yn un o rai prin yr ardal sy'n medru'r Gymraeg, ac mae wedi ei chodi ym Mlaenau Ffestiniog ac mae mor sionc â pherson llawer yn iau.

# GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: K.O. Pritchard

**FFEIRIAU NADOLIG**
Mae nifer o Ffeiriau Nadolig i gymryd lle yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd pob mudiad ar ei orau yn codi arian tuag at achosion da. Rhaid talu teyrnged i'r gwragedd sydd yn paratoi trwy gasglu, gwnio a choginio ar gyfer yr amgylchiad. Nos Fercher fe gynhaliwyd Ffair Merched y Guild. Yn anffortunus, fel y llynedd, roedd yn noswaith stormus a gwlyb. Er hynny daeth nifer ynghyd a gwnaethpwyd dros £700 o elw. Ar hyd y blynyddoedd mae y Guild wedi cyfrannu miloedd o bunnoedd i gynorthwyo ysbytai ac achosion dyngarol. Diolchiadau lawer i'r ffyddloniaid sydd yn dod bob blwyddyn ac yn cyfrannu'n helaeth.

**GŴYL Y COFIO**
Mis Tachwedd yw Gŵyl Cofio y ddwy Ryfel Byd. Tra'n gwylio y dathliad o gylch y Gof Golofn yn Llundain a'r nifer a gerddai gydag urddas heibio'r golofn, rhaid oedd cofio'r miloedd na ddaeth yn ôl. Dathlwyd y cofio ymhob llan a lle. Bore Sul cynhaliwyd y Cofio yn y Cwm gyda phob mudiad yn rhoddi torch wrth droed y Golofn.

Parhad ⇨

## Parhad Gilfach Goch

**TEITHIAU SIOPA**
Parhau mewn poblogrwydd mae teithiau o'r Cwm i wahanol fannau i siopa. Er bod hyn o fantais mawr i bobl heb gyfleusterau teithio, mae'n amser hefyd i ddod â siopau a chyfleusterau eraill yn ôl i'r Cwm. Mae y boblogaeth i'w weld yn cynyddu gyda son bod rhagor o dai eto i gael eu hadeiladu. Mae colled ar ôl cyfleusterau teithio i'r Rhondda, hen gartre siopa y Cwm. Mae y daith gyda'r bws i Donypandy yn hynod o anghyfleus a da fyddai dod â'r cysylltiad â'r Rhondda yn ôl. Mae y Rhondda fel y Gilfach yn ymladd am ei ddyfodol - sef ail eni'r cysylltiad ac adnewyddu'r cymunedau.

**NEWYDDION DRWG**
Mae llawer o bryder ymhlith hen ac ifanc am y newyddion cyson am ladrata a thorri i mewn i adeiladau. Gyda dyfodiad y nosweithiau tywyl mae'r pryderon yn dwyshau. Er bod rhannau o'r Cwm yn cael gofal cyson gan wylwyr y Gymdogaeth, mae y Garden Village yn dioddef oddi wrth diffyg y gwasanaeth, a chael cynorthwy personau sy'n barod i weithredu a rhoi eu hamser. Fe allai y bydd rhywrai yn barod i gynorthwyo yn y dyfodol agos.

**CLEIFION**
Cofiwn am y cleifion yn yr ysbytai, cartrefi'r henoed a'u cartrefi yn y Gilfach. Mae holi cyson am eu cyflwr, a dymuniad pawb yw gwellhad buan iddynt, ac os yn bosib dychweliad adref i'w hen gynefin.

**YR YSGOLION**
Mae'r ysgolion yn brysur yn paratoi Carolau a Chyngerddau ar gyfer y Nadolig. Bydd rhieni â'r cyhoedd yn edrych ymlaen yn eiddgar at yr amgylchiad a gweld a gwrando ar y plant yn perfformio. Ie! amser prysur iawn yw amser y Nadolig.

**CYFARCHION**
Dyma'r cyfle olaf cyn yr Ŵyl i ddymuno'n dda i bawb ymhell ac agos, gan obeithio y bydd y Nadolig yn Ŵyl hapus a bendithiol ac y daw y Flwyddyn Newydd a gobeithion newydd a llwyddiannus i'r ardaloedd i gyd.

## PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Delyth Jones

**ADRAN Y GRAIG**
Aeth dros 60 o blant yr Adran i Gastell Cyfarthfa i weld sioe yr Urdd "Pasiant y Peiriannau".

**CARTREF NEWYDD**
Croeso i Hefin a Lowri Gruffudd sydd wedi ymgartrefu yn Parc Prospect, Graigwen.

**YSGOL EVAN JAMES**
Aeth dosbarth 3 i ymweld a "Grotto" newydd Sion Corn ym Mharc Ynysangharad - cawson nhw anrheg yr un ganddo! Aeth nifer o blant yr ysgol i gefnogi Pontypridd yn erbyn De Affrig ar faes rygbi Heol Sardis. Bu dosbarth 8 a 9 i'r Miwni i weld perfformiad o'r "Borrowers".

**SIOC HANNER TYMOR**
Yn ystod hanner tymor bu tân yn neuadd yr ysgol. Gwnaed difrod helaeth i'r neuadd a threiddiodd y mwg i bob cornel o'r adeilad. Erbyn hyn mae'r neuadd ar ei newydd wedd wedi mis o waith yn ail-addurno.

**PÊL RWYD**
Yn ystod Wythnos Chwaraeon Taf Elái fe gyrhaeddodd y tîm y rownd gyn-derfynol yn y twrnament pêl rwyd yng Nghanolfan y Ddraenen Wen ar ddydd Iau 20fed Hydref. Chwaraewyd 6 gem i gyd:-
Maes y Bryn ennill 1 - 0
Gwaun Celun cyfartal 1 -1
Craig yr Hesg ennill 1 - 0
Trefforest colli 4 - 2
Llwyncrwn colli 5 - 2
Graig yr Hesg cyfartal 2 - 2
Collwydd y rownd gyn-derfynol i dîm Trefforest.

**TRAWSGWLAD**
Llongyfarchiadau i Matthew Whiles a Sam Evans am gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus yng Nghystadleuaeth Trawsgwlad Ysgolion Cynradd Taf Elai.

**GWASANAETHAU CAPEL SARDIS**
Rhagfyr 4: Gweinidog
Rhag 11: Ysgol Pont Sion Norton ac Ysgol Evan James
Rhag 18: Carolau (Festri)
Rhag 25: NADOLIG Gweinidog (9.30).

**YSGOL HEOL Y CELYN**
Yn ddiweddar aeth plant Blwyddyn 3,4,a 5 i'r Planetarium yn Llundain - fel rhan o'r thema Awyr a Gofod. Yn ystod y mis diwetha daeth 'Star Lab' - Techniquest i'r ysgol - roedd y plant wrth eu bodd.

Aeth côr yr ysgol i'r BBC i recordio 'Sioe Gerdd'. Darlledir y rhaglen y tymor nesaf. Hefyd bu'r côr a'r dawnswyr yn diddanu myfyrwyr tramor yn y Ganolfan Hanesyddol a hefyd yng Nghartref yr Henoed, Cae Glas, y Ddraenen Wen. Yn ystod yr wythnosau nesaf fe fydd y côr yn canu carolau yn y Bwthyn Pontypridd.

Mae Ysgol Heol y Celyn wedi gefeillio gyda Ysgol y Garnedd, Bangor, daeth criw o blant ac athrawon i lawr atom yn ddiweddar ac fe aeth ein plant ni i Fangor. Roedd y fenter yn un llwyddiannus iawn.

Mae tîm rygbi'r ysgol wedi curo ysgol Trefforest 115 - 0 !!! yn rownd gyntaf cwpan Ysgolion Pontypridd.

Cynhelir Ffair Nadolig yr ysgol ar Ragfyr 10fed am 1.30 o'r gloch ac fe fydd y Cyngerdd Nadolig ar Ragfyr 19eg am 1.30 a 6.00 o'r gloch.

## CYD

Bu aelodau CYD yn weithgar yn cynnal stondin cyhoeddusrwydd yn ystod Gŵyl Ddrama Tafod Elái. Cynhelir y Parti Nadolig yng Nghlwb y Bont ar 15ed o Ragfyr am 8 o'r gloch. Mae croeso i ddysgwyr o bob safon a Chymry Cymraeg.

## CLWB Y BONT

Mae nifer o bartion a gweithgareddau yn y clwb cyn y Nadolig. Uchafbwynt y dathliadau fydd cyngerdd gan Mynediad am Ddim ar nos Sadwrn, 10fed o Ragfyr.

# BOCS SEBON

"La Trappiste"
Avenue de la Tosion d'Or 3
Brwsel

Dydd Mawrth, Hydref 25

Annwyl Ddarllenwyr,

Pwy ydych chi'n feddwl sy newydd gerdded i mewn i'r brasserie hen ffasiwn hwn yn Rhodfa'r Cnu Aur lle rydw i'n mwynhau platiad sylweddol o *chocroutte au jamboneau* gyda gwydriad o gwrw enwocaf Brwsel - *La Morte Subite* (9% alc) - cyn mynd i weld ffilm ddiweddaraf Gerard Depardieu "Le Colonel Chabert" (seiliedig ar stori gan Balzac, fel y mae drama o'r un enw gan Saunders Lewis) yn y sinema'r drws nesa? Pwy gerddodd i mewn, meddwn i, choeliwch chi fyth, ac eistedd wrth fwrdd cyfagos, ond Emlyn Davies a Jane Fonda!

Am sgandal! Am newydd da, syfrdanol i ddiwylliant ffilm a theledu Cymru! Y naill beth na'r llall, gwaetha'r modd. Mae Ewrop yn llawn o bobol sy'n cymryd arnynt fod yn Gymry adnabyddus. Clustfeiniais ar Emlyn a Jane, jest rhag ofn. Roeddynt yn siarad Iseldireg - ac yn edrych yn reit big arna'i.

Mewn ffordd, roeddwn i'n falch nad Emlyn yw'r boi oherwydd buasai'n bownd o'm hatgoffa am y truth addewais i sgrifennu i Tafod Elái. Roedd tri-chwarter awr cyn dechrau'r ffilm a phetawn i'n yfed llawer rhagor o'r "Angau Annhymig", buaswn yn cysgu drwyddo, felly dyma ofyn i'r gweinydd am ddwy ddalen o bapur ysgrifennu er mwyn cyflawni f'addewid newyddiadurol yn y fan a'r lle.

Ond am be sgrifenna i? Cyn i ymddangosiad Em a Jen lenwi f'ymennydd claf a ffantasiau y mae'n well imi beidio â'u crybwyll yma, bum yn meddwl yn synfyfyriol am f'ymweliad cyntaf â Brwsel, yn 1958. Euthum yn un o dri bachgen a thair merch a ddewiswyd gan yr Urdd i gynrychioli'r Mudiad a'r Genedl yn Expo - Ffair y Byd - a gynhaliwyd y flwyddyn honno. (Yr Atomium enwog oedd sumbol yr Ŵyl).

Roeddem yn rhan o ddirprwyaeth Brydeinig a wahoddwyd i Gynhadledd Ieuenctid Ewropeaidd, yn Nivelles/Neuvel, rhyw ugain milltir o'r Brifddinas. Noddwr hael y Gynhadledd oedd y Western European Union. Dywedwyd wrthym mai amcan clodwiw W.E.U. oedd hyrwyddo undod a chyd-ddealltwriaeth ymhilth pobloedd Ewrop. Erbyn hyn, deallaf mai "colofn Ewropeaidd NATO" ydyw. Ni fuaswn wedi digio petai'r wybodaeth honno gen i yn 1958, gan nad oeddwn ar y pryd on ychydig filimetrau ymhellach i'r chwith na'r Seneddwr Joe McCarthy.

Arweinydd y Ddirprwyaeth Brydeinig i'r Gynhadledd oedd Dyn o'r Swyddfa Dramor o'r enw Michael Barry. Credaf iddo gael ei ddewis oherwydd ei debygrwydd rhyfeddol i "Major Thomson", arwr cyfres o nofelau poblogaidd am Sais "nodweddiadol" a oedd yn briod â Ffrances.

Credaf hefyd fod arweinydd y Ddirprwyaeth Ffrengig wedi ei ddewis oherwydd mai ei new oedd Michael Dupont a'i fod yn rhyfeddol o debyg i'r actor tra-golygus, Gerard Philippe. Clywais Mr Barry a Monsieu Dupont yn cyfarch ei gilydd fel hyn rhyw fore.

"Major Thomson, mon ami! 'Ow are you zis morneeng?"

"I'm very well, Dupont. How are you? Ate any nice frogs recently?"

Entente cordiale!

Gofynwyd i bob "Dirprwyaeth Genedlaethol" ddarparu "pryd nodweddiadol". Yn y dyddiau diflas hynny, ymhell cyn y mewn-lifiad bendithiol o'r India a'r Dwyrain Pell, roedd cuisine y Deyrnas Gyfunol yn anfwytadwy ym marn gweddill y byd. Ac eithro'r brecwast Prydeinig. Penderfynwyd, felly y byddem ni'n arlwyo *le breakfast britannique* ger bron ein cyd-gynadleddwyr. Gan i Mr Barry ofyn am gyfraniadau gastronomig "rhanbarthol" at y brecwast, perais i Anti Annie o Bontrhydyfen anfon pwys o fara lawr ato drwy'r post.

Yn anffodus, rhywle rhwng Abertawe a'r F.O., craciodd y bocs plastig oedd yn cynnwys y bara lawr. Erbyn i ni a gweddill y Ddirprwyaeth ymgynnull yn Llundain, roedd y gwymon pygddu wedi dechrau llwydo.

"What the hell's this?" gofynnodd Mr Barry.

"Welsh marmalade" ebe'r Ddirprwyaeth Gymreig. "It's delicious. Try some . . ."

"Looks to me as if it's gone off. Better not take it over in case some of those damned foreigners get food poisoning".

Rhyw ddwy flynedd yn ddiweddarach, ar b'nawn stormus yn ystod Haf gwlypa'r ganrif, digwyddai aelod o'r Ddirprwyaeth Gymreig fod yn cerdded ar hyd y prom yn Aberystwyth. Stopiodd car ar ei phwys a daeth y gyrrwr allan i'r gwynt a'r glaw a'r heli i holi'r ffordd rwyddaf i adael y dref. Cyn i'r ferch allu ateb, ebychodd y modurwr:

"Good God, Buddug, it's you!"
"Mr Barry!"
"Do you live in this God-forsaken hole?"

Newidiodd Ewrop, Gwlad Belg a Chymru yn ddirfawr er 1958, ond mae dipyn go-lew o Saeson Toriaidd yn dal i warchod yr egwyddorion a'r gwerthoedd a wnaeth Prydain yn Fawr.

Yn ddiffuant,

Gareth Miles.

# YSGOL Y DOLAU

**DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch eleni gan blant yr ysgol. Casglwyd ffrwythau a llysiau gan yr Adran Fabanod a'u dosbarthu yng Ngwasanaeth y Babanod i'r henoed. Cafwyd gwasanaeth i'r plant Cynradd yng Nghapel Carmel, Llanharan. Anerchwyd y cyfarfod gan Y Parch Robin Samuel. Trosglwyddwyd siec o £944 i Mr Wyndham Thomas ar ran y plant i Gronfa Plant Genedlaethol.

**RYGBI**
Enillwyd pob gem hyd yn hyn eleni. Capten y tim yw Gareth Holmes. Dewiswyd Gareth Holmes, Geraint Thomas, Lee Huckeridge, Jonathan Taylor, Craig Burton a Kevin Worgan i garfan Pontypridd.

**PEL RWYD**
Dechreuodd y flwyddyn yn eithaf llwyddiannus. Enillwyd dwy o'r gemau a chwaraewyd. Mae'r plant yn ymarfer ar Nos Fawrth ar ôl yr ysgol. Aelodau y tim yw Rachel Evans (Capten), Claire Lewis, Carys Parsons, Rhiannon Lewis, Bethan Chard, Aimie Dyer, Joanne Morgan, Jenna Tattersall, Jenna Ryan, Emma Chappell, Joanne Butler a Lisa Evans.

**TRAWSGWLAD**
Mwynhaodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 y profiad o gystadlu yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Ysgolion Taf Elái eleni. Disgwyliwn yn eiddgar am fwy o gystadlu. Bu bechgyn Blwyddyn 5 a 6 yn llwyddianus yng nghystadleuaeth yr Urdd yn Aberystwyth. Daeth tîm Blwyddyn 5 yn gyntaf a chafodd tîm Blwyddyn 6 yr ail wobr.

**YMWELIADAU**
Bu plant blwyddyn 5 a 6 yn ymweld â chynhyrchiad o "Breaking the Ice" gan gwmni Spectacle ym Mhontypridd. Roedd perfformiad y ddau brif actor, Brenda Charleson a Carys Gwilym yn wefreiddiol.

Bu Blwyddyn 3 a 4 yn ymweld â Chastell Caerffili fel rhan o'u gwaith Hanes. Er y tywydd gwlyb fe lwyddodd pob un i gael budd o'r gwaith. Ar ôl dod yn ôl fe fuont yn brysur yn ysgrifennu, actio a darlunio golygfeydd o fywyd fel yr oedd yng nghyfnod y Normaniaid.



**Ed Evans, Peiriannydd yr RAC yn archwilio car John James.**

Ar 'Y Byd ar Bedwar' ym mis Tachwedd dangoswyd rhaglen ar safon gwasanaethu ceir. Ymysg y ceir gafodd eu harchwilio cyn ac ar ôl y gwasanaeth roedd car John James, Tonteg a car Hefin Tomos tiwniwr piano yn yr ardal. Cafodd John James ei wasanaeth yng Nglyncoch ac er y gofynnwyd am wasanaeth llawn roedd nifer o ddiffygion amlwg heb eu cywiro yn ôl Ed Evans, Peiriannydd yr RAC. Mae Gwasanaeth Safonau Masnach Morgannwg Ganol yn ymchwilio i safonau gwasanaethu ceir ac maent am glywed am unrhyw broblem ddaw i'r golwg.


**Cwmni Mega yn cyflwyno**

**BRANWEN** *y Panto*

**gyda**
**Dewi Pws**
**Llion Williams (George, C'mon Midffild)**
**Dewis Rhys (Dyff, Pobol y Cwm).**

**yn y Miwni, Pontypridd.**
**Dydd Llun i Ddydd Gwener**
**9 - 27 Ionawr**
**a Nos Sadwrn 14 a 28 Ionawr.**

**Tocynnau i ysgolion: 01222 611515**
**Tocynnau'r hwyr: 01443 493232**

# Mae eich barn chi yn bwysig i ni . . .

S4C

## CYFARFOD CYHOEDDUS

**Bydd y Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Sianel yn eich croesawu ac yn ateb eich cwestiynau.**

**Canolfan Hanesyddol**
**a Diwylliannol**
**PONTYPRIDD**
**Nos Lun Rhagfyr 12**
**7.30 p.m.**

**Am docynnau ffoniwch 0222 741414**

S4C


## CHWILAIR

*carolau seren hosan addurniadau anrheg*

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| c | r | w | y | c | n | a | b | d | u |
| i | c | a | r | o | l | a | u | a | s |
| o | g | o | l | e | u | a | d | a | u |
| l | r | d | i | d | s | u | t | n | i |
| d | a | a | y | e | i | s | r | g | m |
| r | u | r | a | n | rh | e | g | e | s |
| c | e | i | r | w | e | e | g | l | e |
| a | m | u | s | t | r | i | ch | a | r |
| a | dd | b | r | o | p | m | r | n | e |
| a | f | h | i | n | h | o | s | a | n |

*coeden*

*angel*

*goleuadau ceirw dyn eira.*

# NADOLIG Y PLANT



**Lliwiwch yr hosan**

tri - gwyn
pedwar - coch
chwech - gwyrdd
wyth - melyn
deg - oren
un deg tri - coch
un deg naw -oren
dau ddeg un - gwyn
dau ddeg pump - glas
dau ddeg saith - gwyrdd

